PLANT DEWI

Lle Mae Teuluoedd yn Bwysig

Where Families Matter

GWEITHGAREDDAU CRISTINGL I BLANT 2026

Yn goleuo gobaith i deuluoedd

ar draws Esgobaeth Tyddewi



Rhif Elusen Cofrestredig/Registered Charity No: 244178

Cynnwys

Coeden y Goleuni
Gwneud Cristingl gartref
Ein Her i'r Teulu
Pasbort Cristingl
Tudalennau lliwio Cristingl

Coeden y Goleuni

Rhowch ddarn bach o bapur siâp fflam neu seren i bob plentyn, a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu neu arlunio:

□ Gweddi
□ Rhywun maen nhw eisiau ei helpu
□ Rhywbeth maen nhw'n ddiolchgar amdano

Yna, ewch ati i'w casglu a'u harddangos ar fwrdd neu goeden ("Coeden y Goleuni") ger yr allor neu'r ardal weddi.

Gwneud Cristingl gartref

Bydd angen y canlynol:

🍊 Oren

❤️ Rhuban coch neu stribed o bapur

4 ffon goctel

🍬 Losin bach neu ffrwythau sych

🕯️ Cannwyll (gyda chymorth oedolyn)

Cam 1

Rhowch y rhuban coch o gwmpas canol yr oren.

Cam 2

Gwthiwch bedair ffon goctel i'r oren.

Cam 3

Rhowch losin neu ffrwythau sych ar bigyn y 4 ffon.

Cam 4

Rhowch gannwyll yn ofalus i mewn i ran uchaf yr oren.

Cam 5

Gofynnwch i oedolyn eich helpu i oleuo'r gannwyll.

Ein Her i'r Teulu

Yr wythnos hon byddwn yn ceisio helpu rhywun trwy:

☐ Fod yn garedig i ffrind
☐ Helpu gartref
☐ Rhannu gyda rhywun
☐ Rhoi rhywbeth addas ar gyfer babi neu blentyn bach
☐ Annog rhywun sy'n teimlo'n unig
☐ Rhywbeth arall –

_____

_____

_____

Fy Mhasbort Cristingl

Goleuo Gobaith i Deuluoedd

Enw: _____

Eglwys: _____

Dyddiad: _____

🍊 Yr Oren

Y Byd a'n Cymuned

Mae'r oren yn cynrychioli'r byd ac yn ein hatgoffa ein bod ni i gyd yn rhan o fyd Duw.

□ Dwi wedi dysgu beth mae'r oren yn ei gynrychioli.

□ Dwi wedi dweud diolch am fy nheulu.

□ Dwi wedi chwarae gyda rhywun newydd neu siarad â nhw.

□ Dwi wedi dysgu am Plant Dewi a'r teuluoedd y mae'n eu cefnogi.

Dwi'n ddiolchgar am:

_____

_____

_____

Fy Mhasbort Cristingl

❤️Y Rhuban Coch
Cariad sy'n ein hamgylchynu
Mae'r rhuban coch yn ein hatgoffa o gariad Duw a'r cariad rydyn ni'n ei ddangos tuag at eraill. Mae cariad Duw yn ein hamgylchynu ble bynnag rydyn ni'n mynd.

□ Dwi wedi helpu rhywun gartref.
□ Dwi wedi rhannu gyda ffrind neu frawd neu chwaer.
□ Dwi wedi rhoi gwên ar wyneb rhywun.
□ Dwi wedi gwahodd rhywun i ymuno.
Dyma un ffordd dwi wedi dangos caredigrwydd:

_____

_____

_____

Fy Mhasbort Cristingl

🍬 Y Losin a'r Ffrwythau

Rhoddion Da gan Dduw

Mae'r rhain yn ein hatgoffa o'r rhoddion arbennig y mae Duw yn eu rhoi i ni, er enghraifft teulu, ffrindiau, bwyd, chwerthin a charedigrwydd.

□ Dwi wedi diolch i Dduw am rywbeth arbennig.

□ Dwi wedi meddwl am y pethau sy'n fy ngwneud i'n hapus.

□ Dwi wedi dod â rhodd ar gyfer babi neu blentyn ifanc.

□ Dwi wedi helpu i ofalu am greadigaeth Duw.

Anrheg dwi'n ddiolchgar amdano:

_____

_____

_____

Fy Mhasbort Cristingl

🕯️ Y Gannwyll

Goleuni Crist

Mae'r gannwyll yn ein hatgoffa mai Iesu yw Goleuni'r Byd. Yn union fel y mae cannwyll yn disgleirio yn y tywyllwch, gallwn helpu i ddod â gobaith i eraill.


□ Dwi wedi goleuo cannwyll Cristingl.
□ Dwi wedi ymuno mewn gweddi.
□ Dwi wedi gwrando ar stori'r Cristingl.
□ Dwi wedi helpu i ddod â gobaith i rywun arall.


Fe alla i fod yn oleuni trwy:

_____

_____

_____







PLANT DEWI

Lle mae Teuluoedd yn Bwysig

Where Families Matter